



## Dinas a Sir Abertawe

### Cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau

### Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams

Dydd Mercher, 26 Gorffennaf 2023 am 4.00pm

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd M Durke (Cadeirydd) fu'n llywyddu

#### Y Cynghorwyr

F M Gordon  
L R Jones

#### Y Cynghorwyr

B Hopkins  
S Joy

#### Y Cynghorwyr

Y V Jardine  
S Pritchard

#### Swyddog(ion)

Stephen Holland  
Sarah Hughes  
Helen Morgan-Rees  
Kelly Small  
Samantha Woon

Prif Gyfreithiwr  
Rheolwr Tîm ar gyfer Strategaeth Addysg  
Cyfarwyddwr Addysg  
Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg  
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

#### Hefyd yn bresennol

Y Cyngorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

#### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cyngorydd(wyr): T M White

---

## 9 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 11 Yr ysgolion cywir yn y lleoedd cywir

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei bresenoldeb yng nghyfarfod y Cabinet ar 21 Gorffennaf, 2023 a mynegodd ei ddiolch i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu am ei wahodd i'r cyfarfod i gyflwyno hen adroddiad y PDC Addysg a Sgiliau ar Arweinyddiaeth, Cynhwysiad a Llywodraethu: Datblygu Rhagoriaeth yn Ysgolion Abertawe. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet ac roedd yn cynnwys y Llawlyfr newydd i Benaethiaid ac Uwch-arweinwyr, Polisi Presenoldeb newydd Abertawe (rhan o'r Strategaeth Cynhwysiad) a'r Strategaeth Cefnogi Cyrff Llywodraethu, a'r Cynllun Gweithredu Datblygu Llywodraethu Ysgolion.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at gynnydd tuag at argymhellion yr adroddiad gan y PDP Addysg a Sgiliau yn 20/21 - Cefnogi'r Heriau i Ddysgwyr wrth Adfer o'r Pandemig a fyddai'n rhan o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Sgiliau ym mis Medi.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad yn rhoi cipolwg ar y gwahanol ddemograffig, pwysau ariannol a materion eraill y byddai angen eu hystyried dros y deng mlynedd nesaf. Diolchodd i'r swyddogion am yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg yn manylu ar rai o'r ysgogwyr, y galluogwyr a rhai o'r cyfyngiadau a wynebir wrth nodi ffordd o weithredu mewn perthynas â sut olwg fydd ar ystâd yr ysgol yn y 10 mlynedd nesaf. Nododd pa mor bwysig ydyw i'r Pwyllgor ystyried sut mae ein dulliau'n dryloyw ac yn deg i bob ysgol, ac yn wir i'r cyhoedd.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar yr wybodaeth gyd-destunol ynghylch y stoc ysgolion yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2023 ac awgrymodd y dylid llunio cynllun trefniadaeth ysgol i gwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd.

Roedd yr adroddiad, y cyntaf o dri a raglennwyd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023-2024, wedi gosod y cyd-destun ar gyfer ystad yr ysgol yn Abertawe ac roedd yn amlinellu manylion demograffig y cyngor sy'n berthnasol i gyflenwi lleoedd mewn ysgolion.

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg fanylion yr ystad bresennol, yr angen am newid a chysylltiadau â'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Nododd yr Aelodau drwy'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig (PCC) Addysg a Sgiliau y cynigiwyd y dylid llunio cynllun trefniadaeth ysgolion deng mlynedd i'w ystyried gan y Cabinet. Dylai'r cynllun ymblethu â'r Rhaglen Amlinellol Strategol o dan y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yn ogystal â chynlluniau perthnasol eraill, ond dylai hefyd gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau (Dydd Mercher,  
26 Gorffennaf 2023)  
Parhad

- Manylion demograffig sy'n berthnasol i gyflenwi lleoedd ysgol, gan gynnwys:
  - Cofrestrau disgyblion – gwirioneddol ac amcanol (cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a ffydd)
  - Lleoedd dros ben/prinder lleoedd - cynradd ac uwchradd
  - Darpariaeth a lleoedd ADY (gan gynnwys mewn ysgolion nas cynhelir)
  - Darpariaeth 6ed dosbarth
  - Darpariaeth alwedigaethol
  - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r gofynion am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
  - Oedrannau adeiladau ysgol
  - Graddfeydd Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos
  - Graddfeydd cyflwr
  - Canran trosiant disgyblion
- Datganiad o ragdybiaethau mewn perthynas â darpariaeth i ddisgyblion, er enghraifft maint priodol/uchafswm maint ysgolion
- Manylion ynghylch ad-drefnu ysgolion yn hanesyddol yn Abertawe
- Polisiâu ac egwyddorion sy'n gysylltiedig â threfniadaeth ysgolion, gan gynnwys cludiant o'r cartref i'r ysgol
- Amrywiaeth y ddarpariaeth
- Hygyrchedd y ddarpariaeth
- Dewis rhieni ac ysgolion poblogaidd
- Arbed ynni

Gellid rhannu'r cynllun drafft â rhanddeiliaid a gellid cynnal gweithdai gyda'r Pwyllgor i ystyried agweddau ar y cynllun os yw'n briodol.

Trafodwyd yr adroddiad gan yr aelodau a gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn briodol. Roedd y materion allweddol a gododd o'r trafodaethau'n cynnwys:

- Pwysigrwydd bod yn agored, tryloywder a sensitifrwydd yn ystod y broses gynllunio.
- Adolygiadau dalgylchoedd (a gynhaliwyd ddiwethaf ym mis Medi 2021) a'r goblygiadau sy'n deillio o ddewis rhieni a chludiant o'r cartref i'r ysgol.
- Y cymhlethdodau sy'n ymwneud â chyllid y ddarpariaeth chweched dosbarth a'r effaith ar yr amgylchedd o ran pobl ifanc sy'n teithio i ddarparwyr amgen yn y sir.
- Manteision gweithdy ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.
- Penderfynu ar y ffigur gorau o ran lleoedd dros ben er mwyn sicrhau cost cynnal a chadw resymol fesul disgybl.
- Archwilio cyfluniad ysgolion er mwyn defnyddio'r adeiladau'n fwy effeithiol.
- Trafodwyd amserlenni a disgrifiadau o bob un o'r cynlluniau allweddol ynghyd â'r angen i sicrhau bod pob cynllun yn cydweddu (cyfeiriwyd yn benodol at brosiectau fel Dechrau'n Deg).
- Dehongli ac adolygu data amcanestyniadau disgyblion y CDLI.

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau (Dydd Mercher,  
26 Gorffennaf 2023)  
Parhad

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg am ei hadroddiad addysgiadol.

**Penderfynwyd** trefnu gweithdy ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.

## 12 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau ar gyfer 2023-2024 'er gwybodaeth'.

Nodwyd y pwnc i'w drafod yn y cyfarfod dilynol:-

- 27 Medi 2023 –  
Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.42 pm

**Cadeirydd**